

2020 Rhif (Cy.)

2020 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A5
(Cylchfan Halton i Gylchfan
Whitehurst, Y Waun, Bwrdeistref
Sirol Wrecsam) (Gwaharddiadau a
Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2020

The A5 Trunk Road (Halton
Roundabout to Whitehurst
Roundabout, Chirk, Wrexham
County Borough) (Temporary
Traffic Prohibitions & Restriction)
Order 2020

Gwnaed 25 Chwefror 2020

Made 25 February 2020

Yn dod i rym 1 Mawrth 2020

Coming into force 1 March 2020

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A5, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A5 Trunk Road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited and/or restricted because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4), a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Cylchfan Halton i Gylchfan Whitehurst, Y Waun, Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 1 Mawrth 2020.

1. The title of this Order is the A5 Trunk Road (Halton Roundabout to Whitehurst Roundabout, Chirk, Wrexham County Borough) (Temporary Traffic Prohibitions & Restriction) Order 2020 and it comes into force on 1 March 2020.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means:

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2);
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—
 - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
 - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 1 Mawrth 2020 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A5 Llundain i Gaerdybi i'r gogledd o'r Waun, Bwrdeistref Sirol Wrexham sy'n ymestyn o ochr orllewinol Cylchfan Halton hyd at ochr ddwyreiniol Cylchfan Whitehurst;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Gwaharddiadau a Chyfyngiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddau a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(2);
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
 - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
 - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A5 London to Holyhead Trunk Road north of Chirk, Wrexham County Borough that extends from the western side of Halton Roundabout to the eastern side of Whitehurst Roundabout;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 19:00 hours on 1 March 2020 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

Prohibitions and Restriction

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road specified in article 2.

4. No person may, during the works period, drive any vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the length of the trunk road specified in article 2.

5. No person may, during the works period, use or permit the use of a vehicle, other than an exempted vehicle, in such a way that it overtakes any other vehicle on the length of the trunk road specified in article 2 during such times as the restriction specified in article 4 is in operation.

(2) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

Cymhwyso

6.—(1) Nid yw'r gwaharddiadau a'r cyfyngiad yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Atal Dros Dro

7. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

25 Chwefror 2020

Richard Morgan

Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

Application

6.—(1) The prohibitions and restriction in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limit imposed by this Order applies to an exempted vehicle.

Suspension

7. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the length of the trunk road specified in article 2 are suspended during such times as the restriction specified in article 4 is in operation.

Duration of this Order

8. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated

25 February 2020

Richard Morgan

Head of Planning, Asset Management & Standards
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A5
(CYLCHFAN HALTON I GYLCHFAN
WHITEHURST, Y WAUN, BWRDEISTREF
SIROL WRECSAM) (GWAHARDDIADAU A
CHYFYNGIAD TRAFFIG DROS DRO) 2020**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A5 rhwng Cylchfan Halton a Chylchfan Whitehurst, i'r gogledd o'r Waun, Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Effaith y Gorchymyn yw:

i. gwahardd dros dro pob cerbyd, ac eithrio'r rheini sy'n cael eu defnyddio gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, rhag teithio rhwng Cylchfan Halton a Chylchfan Whitehurst.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin o Gylchfan Halton fydd ar hyd yr A5 tua'r de i Gylchfan Gledrid a'r B5070 tua'r gogledd i ailymuno â'r gefnffordd wrth Gylchfan Whitehurst: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r dwyrain o Gylchfan Whitehurst.

ii. gosod terfyn cyflymder o 40 mya dros dro a gwahardd goddiweddyd ar yr adegau hynny ar y darn o'r A5 a ddisgrifir uchod.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiad dros dro yn dod i rym ar 1 Mawrth 2020 ac yn weithredol yn ysbeidiol dros nos (19:00 – 06:00 o'r gloch) am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf. Bydd hysbysiad am yr holl waith sy'n cael ei wneud yn ystod y cyfnod hwn yn cael ei arddangos cyn i'r gwaith ddechrau.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchymynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A5 TRUNK ROAD (HALTON
ROUNDAABOUT TO WHITEHURST
ROUNDAABOUT, CHIRK, WREXHAM COUNTY
BOROUGH) (TEMPORARY TRAFFIC
PROHIBITIONS & RESTRICTION) ORDER
2020**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A5 trunk road between Halton Roundabout and Whitehurst Roundabout, north of Chirk, Wrexham County Borough.

The effect of the Order is to:

i. temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, from travelling between Halton Roundabout and Whitehurst Roundabout.

The alternative route for westbound vehicles from Halton Roundabout will be via the southbound A5 to Gledrid Roundabout and northbound B5070 to re-join the trunk road at Whitehurst Roundabout: vice versa for eastbound vehicles from Whitehurst Roundabout.

ii. impose a 40 mph speed limit and prohibit overtaking during such times on the length of the A5 described above.

The temporary prohibitions and restriction are expected to come into force on 1 March 2020 and operate intermittently overnight (19:00 – 06:00 hours) for a maximum duration of 18 months. Notice of all works being undertaken during this period will be displayed prior to their commencement.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government